

Llys a Llan

*Colofn sy'n crwydro ar hyd
meysydd llên, crefydd a hanes
yng Nghaerdydd a'r Fro*

Yr Athro E. Wyn James



Anna Waring, Iolo Morganwg, a Chrynwyr Castell-nedd a Chernyw (Rhan 7)

Rhoddwyd sylw arbennig yn yr erthygl ddiwethaf yn y gyfres hon i Joseph Tregelles Price (1784–1854). Fe'i ganed yn ardal Aberfala (*Falmouth*) yng Nghernyw i deulu dylanwadol o Grynwyr, ond symudodd i ardal Castell-nedd yn 1801 pan ddaeth ei dad, Peter Price, yn rheolwr Gwaith Haearn Mynachlog Nedd. Bu Joseph yn cynorthwyo ei dad yn y busnes, a oedd yn cynnwys hefyd nifer o byllau glo, ac fe'i dilynodd yn rheolwr y gwaith yn 1818. Yn ogystal â chynhyrchu haearn a glo, gwnaed pob math o offer a pheiriannau gan y cwmni, gan gynnwys adeiladu locomotifau stêm a llongau haearn yng nghyfnod Joseph yn rheolwr. O dan Peter, ac yna Joseph, enillodd Gwaith Haearn Mynachlog Nedd fri rhyngwladol ar gyfrif ansawdd y cynnyrch. Roeddynt hefyd yn nodedig eu gofal dros fudd a lles eu gweithwyr.

Roedd Peter Price a'i wraig, Anna Tregelles, a'u teulu (agos ac estynedig) yn nodedig hefyd am eu sêl dros waith dyngarol, Cristnogol ac elusennol o bob math, ac roedd hynny'n wir iawn am eu mab, Joseph. Rhoddwyd rhai enghreifftiau o hynny yn ein herthygl ddiwethaf, gan gynnwys ei waith yn darparu addysg i'r tlodion, hyrwyddo gwaith Cymdeithas y Beibl, ac ymgyrchu yn erbyn y gosb eithaf ac o blaid diwygio seneddol. Ond mae Joseph Tregelles Price yn fwyaf adnabyddus am ei gyfraniad o blaid heddwch ac yn erbyn caethwasiaeth.

Yn sgil y Chwyldro Ffrengig yn 1789, cafwyd dros ugain mlynedd o ryfela di-baid, bron, ar draws Ewrop. Daeth hynny i ben pan drechwyd Napoleon Bonaparte yn derfynol ym Mrwydr Waterloo (ger Brwsel) ym mis Mehefin 1815. Flwyddyn ynghynt, edrychai fel petai'r rhyfela yn Ewrop wedi peidio ar ôl i Bonaparte gael ei alltudio i Ynys Elba ger Corsica yn y Môr Canoldir. Yn y gobaith hwnnw, mewn llythyr dyddiedig 28 Mai 1814, ysgrifennodd Joseph Price o Lundain at ei chwaer, Junia, yn dweud ei fod yn bwriadu dechrau trafodaethau i sefydlu cymdeithas 'for the sole purpose of aiming at such a diffusion of light and knowledge as shall tend to the general and universal preservation of peace'. Y dydd Sadwrn wedyn, 4 Mehefin 1814, cyfarfu Joseph â nifer o bobl eraill i wyntyllu'r mater, a hynny yn Plough Court, Lombard Street, nid nepell o Fanc Lloegr yn Ninas Llundain, lle yr oedd gan y gwyddonydd amlwg o Grynwr, William Allen (1770–1843), fferyllfa. A'r canlyniad yn y pen draw oedd ffurfio'r Gymdeithas Heddwch, neu a rhoi iddi ei henw llawn, 'The Society for the Promotion of Permanent and Universal Peace', a hynny mewn cyfarfod arall yn Plough Court ar 14 Mehefin 1816.

Mae'n werth oedi gyda William Allen a'i fferyllfa enwog yn Plough Court, nid lleiaf oherwydd y

cysylltiadau Cymreig. Sefydlwyd y fferyllfa yn 1715 gan Silvanus Bevan (1691–1765). Roedd ef yn un o deulu o Grynwyr o Abertawe, ac roedd yn perthyn i wŷr Bridget Bevan, noddwraig Griffith Jones, Llanddowror. Daeth ei frawd iau, Timothy Bevan (1704–86), i ymuno â Silvanus yn y fferyllfa yn Plough Court yn 1725. Yn y flwyddyn honno, etholwyd Silvanus yn gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol ar gynnig Isaac Newton.

Roedd Silvanus Bevan yn adnabod William Penn (1644–1718), arweinydd blaenllaw ymhlith y Crynwyr a sylfaenydd Pensylfania. Roedd William Penn yn bresennol ym mhriodas Silvanus yn 1715, a bu gan Silvanus ran yn sefydlu'r ysbyty cyntaf yn Philadelphia, a sylfaenwyd gan Benjamin Franklin ac eraill yn 1751. Roedd Silvanus Bevan yn arddwr brwd ac yn gerflunydd medrus, ac mae nifer o'r portreadau o William Penn sydd ar gael, gan gynnwys y cerflun ohono y tu allan i'r ysbyty yn Philadelphia, yn seiliedig ar gerflun ohono a wnaeth Silvanus.

Tua diwedd ei fywyd, dechreuodd Silvanus Bevan gymryd diddordeb mewn hynafiaethau Cymreig, yn rhannol trwy ei gysylltiad â Richard Morris, un o 'Forysiaid Môn' a sylfaenydd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1751. Ac fe'i hetholwyd yn aelod o'r Cymmrodorion yn 1762, er nad oedd ei Gymraeg, meddai Richard Morris, ond 'yn gandryll' a'i fod yn 'slovenly in eating'.

Yn 1794, aeth y fferyllfa yn Plough Court i ddwylo William Allen, a fu cyn hynny yn gynorthwydd yno i Joseph Gurney Bevan (1753–1814), mab Timothy Bevan. Roedd Timothy, gyda llaw, wedi priodi Elizabeth, un o deulu'r bancwyr Barclay, yn 1735, a gadawodd mab arall Timothy y fferyllfa i weithio i fanc teulu ei fam yn Lombard Street, a alwyd am gyfnod yn sgil hynny yn fanc 'Barclay, Bevan & Bening'.

Yn ogystal â bod yn wyddonydd nodedig, roedd William Allen yn weithgar iawn mewn meysydd dyngarol amrywiol. Ymgyrchodd, er enghraifft, yn erbyn caethwasiaeth a'r gosb eithaf ac o blaid addysg rad. Bu'n rhan o nifer o fentrau i leddfu tlodi a gwella amgylchiadau byw y dosbarth gweithiol, a chydweithiodd am gyfnod â'r Cymro o'r Drenwydd, Robert Owen (1771–1858), yn yr arbrawf cymdeithasol 'iwtopaidd' ym mhentref New Lanark yn yr Alban. Roedd hefyd, wrth gwrs, yn frwd ei gefnogaeth i'r mudiad heddwch, fel y dengys ei ran amlwg yn creu'r Gymdeithas Heddwch yn 1816.

Pan ffurfiwyd y Gymdeithas Heddwch yn 1816, etholwyd Joseph Tregelles Price yn Llywydd, ac yn 1817 sefydlwyd cangen o'r Gymdeithas ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd, y gangen gyntaf y tu allan i Lundain. Hefyd, penodwyd Crynwyr arall o Gastell-

nedd yn Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas, sef Evan Rees (1791–1821). Un o deulu o Grynwyr o Esgair-goch Isa, rhwng Llanbryn-mair a Llanidloes yn sir Drefaldwyn, oedd ei dad. Evan Rees oedd enw hwnnw hefyd – neu ‘Ifan Rees y Cwacar’ fel y’i gelwid yng Nghastell-nedd wedi iddo symud yno yn 1769 a lle y bu’n haearnwerthwr.

Roedd Evan y mab yn egnïol iawn ei feddwl; ymgyrchodd, er enghraifft, i gael llyfrgell gyhoeddus yng Nghastell-nedd yn 1813. Ond roedd yn bur wan o gorff ac aeth i dde Ffrainc yn ystod gaeaf 1814–15 i geisio ymgryfhau. Yn Ffrainc, bu’n dyst i’r anrhaith a’r trallod a achoswyd gan ryfel ac yn sgil hynny daeth yn heddychwr o argyhoeddiad.

Ymdaflodd i’w waith fel Ysgrifennydd y Gymdeithas Heddwch newydd. Un o brif amcanion y Gymdeithas oedd ‘to print and circulate Tracts, and to diffuse information tending to show, that War is inconsistent with the spirit of Christianity, and the true interests of mankind’. Evan Rees oedd awdur y pumed o’r traethodau hynny, sef *Sketches of the Horrors of War* (1818). Fe’i dosbarthwyd yn eang ym Mhrydain a thramor ac aeth i sawl argraffiad. Evan, hefyd, oedd golygydd cyntaf cylchgrawn y Gymdeithas, *The Herald of Peace*, y dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1819. Ond bu raid iddo roi’r gorau i’r ysgrifenyddiaeth yn 1820 oherwydd cyflwr ei iechyd. Penderfynodd fynd i Awstralia yn 1821 i geisio ymadfer, ond bu farw ar y fordaith.

Dywedir hyn am Evan Rees wrth gofnodi ei farwolaeth ym mhapur newydd *The Cambrian*: ‘He was a much-esteemed and useful member of the

Society of Friends, and proved himself the “friend of human kind”.’ Cyhoeddwyd *Memoirs of Evan Rees* yn 1853 gan ei frawd Jonathan (1792–1867), yr olaf o’r teulu hwnnw o Grynwyr i chwarae rhan amlwg ym mywyd cyhoeddus Castell-nedd. Mae’n werth ychwanegu fod cyfrol wedi ei chyhoeddi hefyd i goffáu eu chwaer Martha (1778–1816), a briododd George Boone o Birmingham yn 1801, sef *Selections from the Papers of Mary Boone* (1817), sy’n cynnwys yn bennaf fyfyrddodau defosiynol, gweddïau a cherddi a ganfuwyd ymhlith ei phapurau wedi iddi farw.

Evan Rees oedd Ysgrifennydd cyntaf y Gymdeithas Heddwch, ond nid ef oedd yr un Cymreig olaf o bell ffordd. Fel y dywedodd Gwynfor Evans: ‘Parhaodd y Gymdeithas Heddwch am 120 o flynyddoedd. Am yn agos i gant o’r blynyddoedd hynny Cymry a ddaliai’r ysgrifenyddiaeth.’ Yr enwocaf o’r rheini oedd yr ‘Apostol Heddwch’, Henry Richard (1812–88) o Dregaron, a fu’n Ysgrifennydd y Gymdeithas rhwng 1848 ac 1885.

Gweithiodd Joseph Tregelles Price yn ddygn dros y Gymdeithas Heddwch a’i hamcanion ar hyd ei fywyd. Gwrthodai wneud arfau rhyfel yn ei waith haearn ym Mynachlog Nedd. Bu farw ddydd Nadolig 1854, ac ergyd fawr iddo oedd gweld Rhyfel y Crimea yn torri allan y flwyddyn flaenorol.

Roedd cefnogi’r mudiad heddwch, y mudiad i ddiddymu caethwasiaeth a’r mudiad cenhadol yn aml yn mynd law yn llaw â’i gilydd yn y 18fed a’r 19eg ganrif. Fe welwn hynny yn achos Joseph Price, ac at hynny y trown nesaf.

(I’w barhau)